

## Y Gymraeg: Amdani!

Defnyddio'r Gymraeg mewn chwaraeon

## Welsh: Give it a go!

Using the Welsh language in sport

## Cynnwys Contents

---

---

---

---

---

---

'Mae defnydd naturiol o'r iaith yn hollbwysig boed mewn cynhadledd i'r wasg neu ar grysau T yn mynegi "Diolch" am gefnogaeth yn ystod yr ymgyrch i gyrraedd Ewro 2016.

Mae'n beth naturiol i'w wneud ac yn dangos yn bennaf i'n cefnogwyr selog ein bod ni'n ceisio cyfathrebu â phawb drwy'r Gymraeg neu'r Saesneg. Roedd y ffaith i Gymru gyrraedd cystadleuaeth Ewro 2016 yn gyfle i godi ymwybyddiaeth o'r iaith ledled Ewrop, a hynny mewn cystadleuaeth ryngwladol sy'n rhan o gamp sy'n cael ei chwarae ymhob gwlad yn y byd!

**Ian Gwyn Hughes**  
Cymdeithas Bêl-droed Cymru

'Making natural use of the Welsh language is vitally important in raising awareness be it as part of a press conference or on a T-shirt saying "Diolch" for your support during the Euro 2016 qualifying campaign.

It's a natural thing to do and primarily it demonstrates to our most ardent supporters that we are trying to communicate with everyone through either Welsh or English. The fact that Wales reached Euro 2016 was an opportunity to raise awareness of the language across Europe in a sport which is played in every country throughout the world!

**Ian Gwyn Hughes**  
Football Association of Wales





# Cyflwyniad Introduction



'Mae chwaraeon yn amlwg ym mywyd pobl yng Nghymru – boed ar y llwyfan rhyngwladol, neu yn ein cymunedau trwy glybiau sy'n cael eu rhedeg gan wirfoddolwyr brwdfrydig. Yr wyf eisiau i'r Gymraeg chwarae rôl gynyddol ym myd y campau, ac i fwy o bobl cael cyfle defnyddio'r iaith pan fyddant yn hyfforddi a chystadlu.

Yr wyf wedi cysylltu â nifer o glybiau, hyfforddwyr a chymdeithasau ym mhob rhan o Gymru i glywed eu profiadau, a'r buddion sydd wedi dod o ddefnyddio'r Gymraeg. Mae'r pecyn hwn yn casglu esiamplau o arferion da, ac yn rhoi arweiniad ar y camau nesaf gallwch eu cymryd. Rwy'n gobeithio y bydd yn eich ysbrydoli – ewch amdani!

**Meri Huws**  
Comisiynydd y Gymraeg

'Sport is prominent in the lives of people in Wales – be it on the international stage or in our communities through clubs which are run by enthusiastic volunteers. I want the Welsh language to play an increasing role in sport, and for more people to have the chance to use it while training and competing.

I have contacted many clubs, coaches and associations across Wales to hear their stories, and the benefits using Welsh has brought them. This pack brings together examples of good practice and gives advice on the next steps you can take. I hope it inspires you – give it a go!

**Meri Huws**  
Welsh Language Commissioner



'Mae ein hangerdd dros chwaraeon yn gwneud i Gymru sefyll allan ar lwyfan y byd, ac mae hyn yn wir am ein diwylliant dwyieithog. Mae chwaraeon yn amgylchedd delfrydol ar gyfer annog defnydd ffurfiol ac anffurfiol o'r Gymraeg.

Yn Chwaraeon Cymru rydym wedi ymrwymo i chwarae ein rhan i wireddu'r weledigaeth hon. Drwy ddarparu cyfleoedd hyfforddi dwyieithog a thrwy gyfrwng y Gymraeg, neu drwy ddefnyddio'r ddwy iaith fel elfen naturiol o gyfranogiad, gallwn ni yn y sector chwaraeon gynnig cyfleoedd i'r Gymraeg ffynnu yn ein cymunedau.'

**Sarah Powell**  
Prif Weithredwr  
Chwaraeon Cymru

'Much as our passion for sport marks Wales out on the world stage, so too does our bilingual culture. Sport is an ideal environment for encouraging the formal and informal use of the Welsh language.

At Sport Wales we are committed to playing our part in delivering this vision. Whether providing coaching opportunities both bilingually and through the medium of Welsh or through using both languages as a natural element of participation, we in the sport sector can provide the opportunities for Welsh to flourish in our communities.'

**Sarah Powell**  
Sport Wales  
Chief Executive

## Y Gymraeg: Amdani!

Defnyddio'r Gymraeg mewn chwaraeon.

Pecyn ymarferol i glybiau a chymdeithasau chwaraeon ar sut i ddatblygu gweithgareddau chwaraeon yn ddwyieithog, yn y Gymraeg a Saesneg yng Nghymru.

Mae'r pecyn hwn yn seiliedig ar ymchwil ac adborth gan gyrff chwaraeon ledled Cymru.

### Y Buddion

Sut all y Gymraeg fod o fudd i chi?

1. Denu aelodau a gwirfoddolwyr newydd i'r clwb
2. Cryfhau cysylltiadau ag ysgolion a'r gymuned Gymraeg leol
3. Adnabod a chyrraedd gofynion eich aelodau.

'Mae'r Gymraeg yn gallu bod yn adnodd marchnata gwych i ddenu aelodau newydd!'

**Gareth Lanagan**

Hyfforddwr Criced Gwirfoddol

## Welsh: Give it a go!

Using the Welsh language in sport.

A practical pack for sports clubs and associations on how to develop a bilingual, Welsh and English approach to sports activities in Wales.

This pack is based on research and feedback from sports bodies across Wales.

### The Benefits

How can the Welsh language be of benefit to you?

1. Attracting new members and volunteers to the club
2. Strengthening links with schools and Welsh speakers in your community
3. Recognising and meeting the needs of your members.

'The Welsh language can be a great marketing tool for attracting new members.'

**Gareth Lanagan**

Volunteer Cricket Coach

## Cynnwys Contents

Diolch i'r canlynol am rannu  
eu profiadau ar gyfer y  
pecyn hwn:

Clwb Achub Bywydau o'r Môr  
Llanilltud Fawr  
Clwb Criced Caernarfon  
Clwb Criced Dolgellau  
Clwb Criced Llandysul  
Clwb Hoci Llandysul  
Clwb Jiwdo Kanokwai,  
Porth-y-rhyd, Caerfyrddin  
Clwb Pêl-droed Llanberis  
Clwb Rygbi Caernarfon  
Clwb Rygbi Castellnewydd Emlyn  
Clwb Rygbi Llanybydder  
Criced Cymru  
Cymdeithas Bêl-droed Cymru  
Chwaraeon Cymru  
Valleys Gymnastics Academy  
Plas Heli, Pwllheli  
Ymddiriedolaeth Bêl-droed Cymru  
Ysgol Cwng Ffw & Qi Gong Hafan  
Shaolin Cymru, Wrexham

Thank you to the  
following for sharing their  
experiences for this pack:

Llantwit Major Surf Life  
Saving Club  
Caernarfon Cricket Club  
Dolgellau Cricket Club  
Llandysul Cricket Club  
Llandysul Hockey Club  
Kanokwai Judo Club, Porth-y-rhyd,  
Carmarthen  
Llanberis Football Club  
Caernarfon Rugby Club  
Newcastle Emlyn Rugby Club  
Llanybydder Rugby Club  
Cricket Wales  
Football Association of Wales  
Sport Wales  
Valleys Gymnastics Academy  
Plas Heli, Pwllheli  
Welsh Football Trust  
Hafan Shaolin Cymru School of  
Kung Fu & Qi Gong, Wrexham

---

'Mae'r iaith Gymraeg yn gymorth  
i'n gwneud yn unigryw mewn  
cymhariaeth â chlybiau eraill  
a chredwn bod hyn wedi ein  
galluogi i ddenu aelodau o  
ddalgylch ehangach.'

**Plas Heli**  
Academi Hwyllo Pwllheli

'The Welsh language helps to  
make us unique in comparison  
with other clubs and we  
believe this has allowed us to  
attract members from a wider  
catchment area.'

**Plas Heli**  
Pwllheli Sailing Academy



## Cynnwys Contents

---

---

---

---

---

---

'Mae ein sesiynau dwyieithog yn agored i bawb, ac rydym wedi ennill aelodau newydd oherwydd y sesiynau dwyieithog hyn.'

**Valleys Gymnastics Academy**  
Crymlyn

---

'Our bilingual sessions are accessible to all and we have gained new members because of these bilingual sessions.'

**Valleys Gymnastics Academy**  
Crumlin





# Buddion Benefits

1

Denu aelodau a gwirfoddolwyr  
newydd i'r clwb

Attracting new members  
and volunteers to the club

Straeon • Stories

Gall cynyddu eich defnydd o'r Gymraeg ddenu mwy o aelodau a gwirfoddolwyr i'r clwb. Mae nifer o glybiau wedi treialu sesiynau dwyieithog.

Increasing your use of the Welsh language can attract more members and volunteers to the club. Many clubs have trialled bilingual training sessions.

'Mae adborth gan rieni wedi bod yn hynod o bositif gyda llawer yn croesawu cyfleoedd fel hyn i ddefnyddio'r Gymraeg tu allan i ffiniau'r ysgol.'

**Clwb Achub Bywydau o'r Môr Llanilltud Fawr**

'Feedback from parents has been extremely positive with many welcoming opportunities like this to use Welsh outside of the school!'

**Llantwit Major Surf Life Saving Club**

'Dim ond yn ddiweddar cafodd y clwb ei sefydlu, ond o fewn 6 mis mae'r holl sesiynau yn llawn ac mae gennym restr aros.'

**Clwb Jiwdo Kanokwai**  
Porth-y-rhyd, Caerfyrddin

'Our club is newly established, but within 6 months all the sessions are full and we now have a waiting list.'

**Kanokwai Judo Club**  
Porth-y-rhyd, Carmarthen



## Arolwg Oedolion Egnïol 2014 Chwaraeon Cymru

Pwy sy'n gwirfoddoli ym maes chwaraeon?

Siaradwyr Cymraeg	<b>11%</b>	Welsh Speakers
Siaradwyr di-Gymraeg	<b>8%</b>	Non-Welsh Speakers

## Active Adults Survey 2014 Sport Wales

Who is volunteering in sport?

## Arolwg Chwaraeon Ysgol 2015 Chwaraeon Cymru

Holwyd 116,000 o blant a phobl ifanc am eu barn ar chwaraeon a'u lles.

## School Sport Survey 2015 Sport Wales

A sample of 116,000 children and young people were asked about sport and welfare.

Siaradwyr Cymraeg sydd 'wedi gwirioni ar chwaraeon'

**53%**

Welsh speakers  
'hooked on sports'

Siaradwyr di-Gymraeg sydd 'wedi gwirioni ar chwaraeon'

**42%**

Non-Welsh speakers  
'hooked on sports'

Mae siaradwyr Cymraeg ym mhob rhan o Gymru

Pwllheli 3,092  
Y Bari 5,459  
Y Rhyl 3,345  
Llanelli 5,732





There are Welsh speakers in every part of Wales

Pwllheli 3,092  
Barry 5,459  
Rhyl 3,345  
Llanelli 5,732

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011

Source: Census 2011



'Roedd galw amlwg yn yr  
ardal leol am glwb gymnasteg  
dwyieithog ac rydym wedi  
ymateb i'r galw.'

**Valleys Gymnastics Academy**  
Crymlyn

-----

'There was a definite demand  
in the local area for a bilingual  
gymnastics club and we've  
responded to this demand.'

**Valleys Gymnastics Academy**  
Crumlin

# Buddion Benefits

2

Cryfhau cysylltiadau ag ysgolion  
a'r gymuned Gymraeg leol

Strengthening links with schools  
and Welsh speakers in your  
community

Straeon • Stories

Gall defnyddio'r Gymraeg gryfhau eich cysylltiadau â siaradwyr Cymraeg o fewn eich cymuned ac ysgolion lleol. Mae rhoi amlygrwydd i'r iaith ar ddeunyddiau marchnata, cyfryngau cymdeithasol a'ch logo yn meithrin hyder aelodau a gwirfoddolwyr yn y brand, ac yn atgyfnerthu'r ffaith bod y Gymraeg yn bwysig i'r sefydliad.

'Rydym bob amser yn defnyddio'r Gymraeg wrth wneud sylwadau ar y cyfryngau cymdeithasol, fel Facebook a Twitter.'

**Clwb Rygbi Caernarfon**

**Cryfhau cysylltiadau â sefydliadau cymunedol**

Bydd sefydliadau cymunedol Cymraeg fel y Mentrau Iaith a'r Urdd yn gwybod am ddarpariaeth bresennol yr iaith yn yr ardal leol. Gall y sefydliadau hyn eich rhoi mewn cysylltiad ag aelodau a hyfforddwyr posibl.

Cafodd **Clwb Rygbi Caernarfon** grant o £4,500 ym mis Awst 2015 gan Lywodraeth Cymru i redeg gwerysilloedd rygbi yn Gymraeg yn ystod gwyliau'r haf.

Using the Welsh language can strengthen your links with Welsh speakers in your community and in local schools. Giving the language prominence on marketing materials, social media and your logo builds members' and volunteers' confidence in the brand, and reinforces that fact that Welsh is important to the organisation.

'We always use Welsh on social media posts like on Facebook and Twitter.'

**Caernarfon Rugby Club**

**Strengthening links with community organisations**

Welsh-medium community organisations such as the Mentrau Iaith and the Urdd will know about current Welsh provision in the local area. These organisations could put you in touch with potential members and trainers.

**Caernarfon Rugby Club** received a grant of £4,500 from the Welsh Government in August 2015 to run Welsh language rugby camps during the summer holidays.

'Mae 40% o'n haelodau iau yn mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg, mae bron pawb yn deall ychydig bach.'

**Ysgol Cwng Fw & Qi Gong  
Hafan Shaolin Cymru  
Wrecsam**

'40% of our junior members attends Welsh medium schools, and almost everyone understands a little.'

**Hafan Shaolin Cymru School  
of Kung Fu & Qi Gong  
Wrexham**

### **Arolwg gan yr Urdd 2015**

Mewn arolwg gan yr Urdd yn 2015, dywedodd 53% o'r bobl ifanc 11-19 mlwydd oed a gymerodd ran nad oedd digon o weithgareddau yn cael eu cynnig trwy gyfrwng y Gymraeg yn eu hardal.

### **Research by the Urdd 2015**

In a 2015 survey by the Urdd, 53% of the young people aged 11-19 who participated stated that not enough activities are offered through the medium of Welsh in their area.

**...am weld mwy o  
weithgareddau  
chwaraeon trwy  
gyfrwng y Gymraeg  
yn cael eu cynnig**

**53%**

**...want to see  
more sports  
activities offered  
through the  
medium of Welsh**



## Cynnwys Contents


'Mae'r holl sesiynau yr ydw i'n eu rhedeg yn ddwyieithog. Nid wyf o reidrwydd yn cyfieithu gair am air ond byddaf yn defnyddio termau syml y mae pawb yn eu deall!'

**Gareth Lanagan**  
Hyfforddwr Criced Gwifoddol

-----

'All of the sessions that I run are bilingual. I don't necessarily translate word for word but I use simple terms that everyone understands.'

**Gareth Lanagan**  
Volunteer Cricket Coach



# Buddion Benefits

3

Adnabod a chyrraedd gofynion  
eich aelodau

Recognising and meeting the  
needs of your members

## Adnabod gofynion eich aelodau

Gall casglu data ar ddefnydd iaith eich aelodau eich helpu i ganfod pa sgiliau iaith sydd o fewn eich sefydliad. Byddai ychwanegu blwch am sgiliau iaith ar y ffurflen aelodaeth yn ystod y broses gofrestru yn ffordd syml ac effeithiol o fesur hyn.

'Mae bob amser yn bwysig i ganfod iaith aelod newydd o'r cychwyn cyntaf.'

**Ysgol Cwng Fw & Qi Gong  
Hafan Shaolin Cymru  
Wrecsam**

## Recognising the needs of your members

Collecting data on the language use of members could help you find out what skills there are in your organisation. Adding a box about language skills on the membership form during the sign up process would be a simple and effective way to measure this.

'It's always important to discover the language a new member speaks right at the start.'

**Hafan Shaolin Cymru School  
of Kung Fu & Qi Gong  
Wrexham**



Mae rhai o'r cyrff llywodraethu chwaraeon wedi cymryd camau positif yn barod. Gofynnodd Criced Cymru ac Ymddiriedolaeth Bêl-droed Cymru wrth eu haelodau am eu defnydd o'r Gymraeg a'u syniadau ar sut i'w ddatblygu. Dyma beth ddarganfuwyd a'r cynlluniau i ddatblygu darpariaeth.

Some of the sports' governing bodies have already taken positive steps. Cricket Wales and the Welsh Football Trust asked their members about their use of the Welsh language and ideas on how to develop it. Here is what they found out and the plans to develop the provision.





## Arolwg Ymddiriedolaeth Bêl-droed Cymru 2014

Ymatebodd 800 o hyfforddwyr am eu hyder yn siarad Cymraeg a sut mae'r iaith yn cael ei defnyddio o fewn eu clybiau.

Roedd yr ymddiriedolaeth yn hapus iawn ag gwedd bositif ymysg yr hyfforddwyr, ond yn nodi bod angen cymorth i ddatblygu hyder a'r defnydd naturiol o'r Gymraeg o fewn y clybiau.


## Welsh Football Trust Survey 2014

800 coaches responded about their confidence in speaking Welsh and how the language is currently used within their clubs.



The trust was very happy with the positive attitude amongst the coaches, but saw that help was needed to develop confidence and the natural use of Welsh within the clubs.



O ganlyniad i'r  
arolwg, mae'r  
ymddiriedolaeth yn:

Datblygu  
deunyddiau  
Cymraeg 


 Cynnal  
gweithdai  
hyfforddi  
dwyieithog

Gwella rhyngweithio  
dwyieithog gyda  
hyfforddwyr  
drwy'r cyfryngau  
cymdeithasol   




Defnyddio pencampwyr  
i hyrwyddo'r Gymraeg  
mewn pêl-droed



As a result of this  
survey the trust are:

Developing  
Welsh medium  
materials 

 Holding  
bilingual  
coaching  
workshops

Improving bilingual  
interaction with  
coaches through  
social media   


Using role models to  
promote the use of  
Welsh in football



Straeon • Stories

Gallwch gyrraedd gofynion eich aelodau drwy gymryd camau syml i gynyddu eich defnydd o'r Gymraeg mewn ffordd naturiol.

You can meet the needs of your members by taking simple steps to increase your use of the Welsh language in a natural way.

'Rydym yn cyflwyno'r iaith Gymraeg yn ein sesiynau drwy ddefnyddio enwau anifeiliaid, siapiau a rhifau. Does neb yn teimlo allan ohoni gan fod popeth yn cael ei ailadrodd yn Saesneg.'

**Valleys Gymnastics Academy**  
Crymlyn

'We introduce the Welsh language in our sessions through using animal names, shapes and numbers. No one is left out as everything always gets repeated in English.'

**Valleys Gymnastics Academy**  
Crumlin

'Mae nifer o'n haelodau yn siaradwyr Cymraeg ac mae defnyddio'r iaith o fewn y clwb yn gwbl naturiol.'

**Clwb Hoci Llandysul**

'Many of our members are Welsh speakers and using the Welsh language within the club is completely natural.'

**Llandysul Hockey Club**





## Arolwg Criced Cymru 2015

Cymerodd holl glybiau criced Cymru ran - 199 ohonynt. Mae 1,210 o hyfforddwyr, a 202 o'r rheiny'n gallu'r Gymraeg (17%).

Roedd 31 (16%) o'r clybiau'n cynnig sesiynau dwyieithog. Nid oedd 44 (22%) o'r clybiau sydd â hyfforddwyr sy'n medru'r Gymraeg yn cynnig hyfforddiant dwyieithog.

Mae Criced Cymru eisiau gwneud gwell defnydd o'r Gymraeg ymhlith hyfforddwyr trwy ddatblygu deunyddiau a chanllawiau hyfforddi cyfrwng Gymraeg. Maent wedi penodi pencampwr iaith Gymraeg gwirfoddol i arwain ar y prosiect.

Gall cyflwyno geiriau ac ymadroddion Cymraeg syml greu sefyllfa lle mae aelodau'n dod i arfer â chlywed yr iaith yn ystod hyfforddiant. Gall hyn gynyddu hyder ymhlith aelodau a gwirfoddolwyr sy'n siarad Cymraeg yn ogystal â dysgwyr.

## Cricket Wales Survey 2015

All 199 cricket clubs in Wales took part. There are 1,210 coaches, and 202 of them can speak Welsh (17%).

31 (16%) of the clubs offered bilingual sessions. 44 (22%) of the clubs that have Welsh speaking coaches were not offering bilingual coaching.

Cricket Wales want to make better use of the Welsh language among coaches by developing Welsh medium coaching materials and guidance. They have appointed a volunteer Welsh language champion to drive the project forward.



Introducing simple Welsh words and phrases can get members used to hearing the language during training. This can increase confidence amongst members and volunteers who are Welsh speakers, as well as learners.

## Offer

Gallwn weld o'r arolygon ac astudiaethau achos bod llawer o botensial ac ewyllys da, ond bod hyder ac adnoddau yn her. Mae'r clybiau angen cefnogaeth gan y cymdeithasau i ddefnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg mewn ffordd gynhwysol.

### Rhestr o'r adnoddau...

Posterï:

- Defnyddio'r Gymraeg i ddenu aelodau a gwirfoddolwyr newydd
- Brandio dwyieithog
- Sut mae defnyddio'r Gymraeg mewn sesiwn hyfforddi?
- Cardiau fflach i hyfforddwyr a gwirfoddolwyr

Mae mwy o adnoddau defnyddiol fel posterï a fideos ar gael. Cysylltwch â Chomisiynydd y Gymraeg trwy [hybu@comisiynyddygymraeg.cymru](mailto:hybu@comisiynyddygymraeg.cymru), neu ymwelwch â

## Tools

We can see from the surveys and case studies that there is enough potential and good will, but confidence and resources are a challenge. The clubs need support from the associations to develop an inclusive way to use Welsh and English.

### List of resources...

Posters:

- Using the Welsh language to gain new members and volunteers
- Bilingual branding
- How can we use the Welsh language during a training session?
- Flashcards for coaches and volunteers

There are more useful resources such as posters and videos available. Contact the Welsh Language Commissioner through [hybu@welshlanguagecommissioner.wales](mailto:hybu@welshlanguagecommissioner.wales) or visit

**Cynnwys**  
**Contents**



**Cysylltiadau • Contacts**

**Mentrau Iaith Cymru**

mentrauiath.cymru  
01443 493715

**Urdd**

chwaraeon@urdd.org  
02920 635 691

**Chwaraeon Cymru**

**Sport Wales**

0300 300 3111  
info@sportwales.org.uk



rhannwch eich profiadau #amdani  
share your experiences #amdani



Cynnwys  
Contents



#amdani